***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 2046 (Cy. 310) (C. 127)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 5) 2015

*Gwnaed - - - - 15 Rhagfyr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 145(3) a (4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 5) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*theAct*") yw Deddf Tai (Cymru) 2014;

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**2**).

### Diwrnodau penodedig

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw'r diwrnod wedi'r diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn—

(a) adran 139 (swm y dreth sy'n daladwy ar gyfer mathau penodol o anheddau);

(b) Rhan 4 o Atodlen 3 (y dreth gyngor ar gyfer mathau penodol o anheddau).

(2) At ddibenion adran 12A(12) o Ddeddf 1992, y diwrnod penodedig i adran 139 o'r Ddeddf ddod i rym i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 12A o Ddeddf 1992, yw 1 Ebrill 2016(**3**).

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

15 Rhagfyr 2015

(**1**) 2014 dccc 7.
(**2**) 1992 c. 14.
(**3**) Mewnosodwyd adran 12A(12) o Ddeddf 1992 gan adran 139 o'r Ddeddf.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r pumed gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 139 o'r Ddeddf. Mae adran 139 yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") drwy fewnosod adrannau 12A a 12B a gwneud diwygiadau canlyniadol eraill iddi.

Mae adran 12A newydd o Ddeddf 1992 yn rhoi i awdurdodau bilio yng Nghymru (sef y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol) ddisgresiwn i godi'r dreth gyngor sy'n daladwy ar anheddau gwag hirdymor yn eu hardaloedd. Mae adran 12B newydd o Ddeddf 1992 yn rhoi i awdurdodau bilio yng Nghymru ddisgresiwn i godi'r dreth gyngor sy'n daladwy ar anheddau sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd yn eu hardaloedd (gelwir yr anheddau hyn yn aml yn "ail gartrefi"). Mae uchafswm y codiad yn 100% ychwanegol o ffi safonol y dreth gyngor.

Dygir adran 139 o'r Ddeddf i rym ar y diwrnod wedi'r diwrnod y gwneir y gorchymyn hwn (yn ddarostyngedig i erthygl 2(2)). Bydd awdurdodau bilio yn gallu gwneud penderfyniad i godi swm uwch o'r dreth gyngor o dan adran 12A a 12B o Ddeddf 1992 o'r dyddiad hwnnw ond dim ond mewn perthynas â blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017.

Effaith erthygl 2(2) o'r Gorchymyn yw, wrth ddyfarnu a yw annedd yn annedd wag hirdymor o dan adran 12A(12) o Ddeddf 1992, rhaid peidio ag ystyried unrhyw gyfnod cyn 1af Ebrill 2016.

Rhaid i awdurdod bilio wneud ei ddyfarniad cyntaf o dan adran 12B o Ddeddf 1992 o leiaf blwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Bydd awdurdodau bilio, felly, yn gallu penderfynu codi swm uwch o'r dreth gyngor mewn perthynas ag ail gartrefi o dan adran 12B o Ddeddf 1992 ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 12A(4) a 12B(5) o Ddeddf 1992 a dyroddi canllawiau o dan adran 12A(3) a 12B(4) o Ddeddf 1992. Mae hefyd yn dwyn i rym Rhan 4 o Atodlen 3 i'r Ddeddf sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1992.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau canlynol yn y Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Cymru i'r graddau a nodir isod drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 2 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 2 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 3 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 3 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 5 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 7 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 10 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 12 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 14 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 14 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 15 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 15 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 16 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 16 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 17 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 18 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 19 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 19 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 20 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 20 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 21 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 21 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 22 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 23 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 23 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 24 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 25 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 26 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 27 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 29 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 34 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 36 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 37 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 38 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 39 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 40 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 41 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 42 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 45 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 46 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 47 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 48 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 49 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 49 (at y dibenion sy'n weddill) | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Adran 50 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 50 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 51 i 56 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 57 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 57 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 58 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 59 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 59 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 60 i 63 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 64 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 64 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 65 i 71 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 72 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 72 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 88 and 74 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 75(1), (2) and (4) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 76 and 77 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 78 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 78(2) (yn rhannol) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 78 (at y dibenion sy'n weddill) | 1 Gorffennaf 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 79 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 80 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 80 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 81 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 81 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 82 i 85 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 86 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 86 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 87 i 94 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 95 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 95 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 96 and 97 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 98 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 98 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 99 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 99 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 100 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Adran 101 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 102 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 105 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 106 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 106 (at y dibenion sy'n weddill) | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 107 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 108 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 109 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 110 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 111 i 128 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 130 a Rhan 3 o Atodlen 3 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 131(4)(c) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 137 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 140 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 141 a Rhan 5 o Atodlen 3 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 144 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Atodlen 1 | 23 Tachwedd 2015 | 2015/1826 (Cy. 266) |
| Paragraff 1 o Atodlen 2 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Atodlen 2 (at y dibenion sy'n weddill) | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Rhan 1 o Atodlen 3 | 27 Ebrill 2015 | 2015/1272 (Cy. 88) |
| Rhan 2 o Atodlen 3 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |

*Gweler* hefyd adran 145(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ac adran 145(2) ar gyfer y darpariaethau hynny a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.